

<b>Papur diweddarau</b> <b><u>Effaith Covid-19 ar Cymraeg 2050 hyd yma</u></b>	
<b>Dyddiad Cyfarfod:</b>	30 Ebrill 2020
<b>Eitem agenda:</b>	Mae'r ddogfen hon yn bennaf berthnasol i Eitem 1 ar yr agenda (Diweddariad gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol).  Fodd bynnag, bydd yn ddefnyddiol hefyd yn ystod Eitem 2 (Effaith Covid-19 ar <i>Cymraeg 2050</i> : Golwg tua'r dyfodol).
<b>Papur</b>	2
<b>Teitl y ddogfen:</b>	Effaith Covid-19 ar <i>Cymraeg 2050</i> hyd yma
<b>Paratowyd gan:</b>	Is-adran y Gymraeg
<b>Pwrpas y ddogfen:</b>	Rhoi diweddariad cryno o'r hyn sydd wedi digwydd o ran <i>Cymraeg 2050</i> ers dyfodiad Covid-19.
<b>Cefndir:</b>	Ar 5 Ebrill, ysgrifennodd Rhodri Llwyd Morgan, ar ran Cyngor Partneriaeth y Gymraeg, at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn holi amryw gwestiynau am sefyllfa <i>Cymraeg 2050</i> yn sgil Covid-19 (Papur 4). Dyma gyfle i'r Gweinidog roi diweddariad i'r aelodau ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd. Bydd cyfle o dan Eitem 2 ar yr Agenda i drafod yr hyn a nodwyd yn y llythyr a materion ehangach a fydd o diddordeb i'r Aelodau a'r Gweinidog.
<b>Cwestiynau i'w hystyried:</b>	Bydd cyfle i holi cwestiynau a thrafod yn fanylach o dan eitem 2 ar yr Agenda (Effaith Covid-19 ar <i>Cymraeg 2050</i> : Golwg tua'r dyfodol).

## **Cymraeg 2050 – Cyffredinol**

- Bydd Covid-19 yn effeithio ar **bob un o feysydd polisi** Llywodraeth Cymru. Bydd yr hyn sy'n digwydd dan ofal Gweinidogion eraill yn siŵr o effeithio ar *Cymraeg 2050* ac rydym yn cyfarfod yn rheolaidd fel Cabinet i drafod materion trawsbynciol.
- Mae *Cymraeg 2050* yn strategaeth sy'n gosod gweledigaeth **hirdymor** Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.
- Mae'n anochel y bydd oedi rhai gweithgareddau dros dro yn sgil Covid-19 yn effeithio ar yr hyn y gallwn ei wneud mewn ymateb i amrywiol amcanion y strategaeth yn y **tymor byr**. Ond rydym ni'n ffyddiog bod cynnydd da wedi'i wneud ers lansio'r strategaeth yn 2017, ac na fydd oedi am gyfnod byr yn effeithio'n rhy andwyol ar ein gwaith.
- Mae'r amser yn agosáu i ni ddechrau ystyried **ail Raglen Waith Cymraeg 2050** ar gyfer 2021 ymlaen, a bydd y gwaith hwnnw'n rhoi ystyriaeth lawn i'r sefyllfa sydd ohoni a'r effaith debygol ar dargedau'r strategaeth hirdymor.
- Gan fod hon yn sefyllfa newydd a bod pethau'n newid yn gyflym o ddydd i ddydd, mae'n anodd rhagweld yn union beth fydd effaith Covid-19 ar *Cymraeg 2050* yn y **tymor canolig a'r tymor hir**.
- Rydym ni wrthi'n gweithio'n agos gyda'n partneriaid i geisio ymateb i **faterion brys** yn y lle cyntaf ac yn ail, i ddechrau cynllunio ar gyfer y tymor pellach.

### **Tymor canolig / hirdymor**

- Wrth edrych tua'r dyfodol, rydym ni newydd gychwyn gwaith i gynllunio'r **Rhaglen Waith 5** mlynedd nesaf ar gyfer *Cymraeg 2050* a fydd yn dilyn ymlaen o Raglen Waith 2017-21.
- Rydym ni eisoes wedi dechrau ystyried yr effeithiau y gallai Covid-19 ei gael ar gymdeithas, yr economi, a'n ffordd o fyw a gweithio – a'r **risgiau a chyfleoedd** y gallai hynny eu cyflwyno i'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- Mae'n ddyddiau cynnar, ac wrth i'n dealltwriaeth o sgil-ffeithiau'r pandemig ddatblygu, byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i hynny.

### **Partneriaid**

- Bydd Covid-19 yn effeithio ar allu ein **partneriaid** i chwarae eu rhan wrth roi *Cymraeg 2050* ar waith, yn enwedig yn y tymor byr.
- Rydym ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda nhw i ddeall sut mae'r sefyllfa'n effeithio arnynt, ac i gynnig **cefnogaeth** ym mhob ffordd bosibl.
- Bydd Covid-19 yn effeithio'n wahanol ar bob un o'n partneriaid felly bydd y gefnogaeth a gynigir gennym yn **amrywio** o achos i achos.

## **1. CYLLIDBAU**

- Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-2021 yn gorfod cael ei hail-flaenoriaethu mewn ymateb i Covid-19.
- Mae pob maes polisi wedi bod yn craffu ar ei chyllidebau i weld beth y gellir ei ildio ar frys i'r frwydr yn erbyn Covid-19. Bydd y broses hon yn parhau.
- Mae difrifoldeb y sefyllfa sydd ohoni yn golygu y bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gallu cefnogi'r bobl fwyaf bregus y mae Covid-19 yn effeithio arnyn nhw. Mae cyllidebau'n cael eu targedu'n bennaf at wasanaethau rheng flaen y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a chefnogi sefydliadau sydd dan bwysau yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- Rydym wedi bod yn edrych ar y cydbwysedd o ran cyllid o fewn portffolio'r Gymraeg.
- Mae hynny wedi arwain yn naturiol at sefyllfa lle nad yw rhai pethau'n gallu cael eu gwneud ar hyn o bryd oherwydd y pandemig. Er enghraifft, mae arbedion wedi'u gwneud o'r prosiect Cymraeg Gwaith am nad yw gweithleoedd a chyflogwyr mewn sefyllfa i gymryd rhan yn y cynllun.
- Byddaf yn ystyried sut orau i ddefnyddio'r arbedion hyn er mwyn helpu i leihau'r effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg a chyrrff sy'n gweithredu ar ein rhan.

## **2. EFFAITH AR ASIANTAETHAU A SEFYDLIADAU SY’N GREIDDIOL I WEITHREDU CYMRAEG 2050**

- Bydd Covid-19 yn effeithio’n wahanol ar bob un o’n partneriaid felly bydd y gefnogaeth a gynigir gennym yn amrywio o achos i achos a bydd y camau y bydd gofyn iddynt eu cymryd hefyd yn amrywio.

### **(i) Yr Urdd**

**Yn y tymor byr**, mae’r Urdd wedi cymryd y camau canlynol:

- Cau ei thair canolfan preswyl yn Llangrannog, Caerdydd a Glan-llyn hyd nes y rhoddir rhybudd pellach.
- Canslo pob Eisteddfod leol a rhanbarthol.
- Gohirio Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych tan 2021, ac yn trafod gyda’i bartneriaid darlledu, S4C a BBC Radio Cymru, ynghylch yr opsiynau o ran dathlu doniau ei aelodau ar blatfform gwahanol yn 2020.
- Gohirio pob cystadleuaeth chwaraeon yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Canslo pob gweithgaredd cymunedol am y tro.
- Rhoi rhai aelodau o staff o dan y cynllun cadw swyddi (*furlough*).

Mae canslo digwyddiadau a chau canolfannau preswyl yn dod ag amrywiol heriau ariannol i’r Urdd a gall y sefydliad wynebu colledion sylweddol o’r herwydd.

**O ran y tymor canolig / hir**, mae’r sefyllfa’n aneglur – er enghraifft mae cwestiynau ynghylch pan fydd y canolfannau’n ailagor, a fydd digon o incwm yn cael ei greu? Rhaid ystyried y posibilrwydd na fydd yr ysgolion yn awyddus i anfon plant i’r canolfannau yn ôl y drefn arferol gan eu bod eisiau i’r plant ganolbwyntio ar addysg yn yr ysgol. A fydd y sefyllfa economaidd yn golygu na fydd rhieni yn gallu fforddio anfon eu plant i’r gwर्सylloedd?

## **(ii) Yr Eisteddfod Genedlaethol**

- Mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi gorfod gwneud penderfyniad i ohirio'r ŵyl yn Nhregaron nes 2021.
- Mae llawer o'r gwaith paratoi ar gyfer Eisteddfod 2020 wedi digwydd yn barod, ynghyd â'r costau a oedd ynghlwm wrth hynny. Bydd gofyn i'r Eisteddfod dalu swm nid ansylweddol o arian er gwaethaf y canslo oherwydd contractau sydd yn eu lle.
- Mae cyswllt agos rhwng Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr yr Eisteddfod, ac fe siaradodd y Gweinidog gyda nhw yn ystod wythnos 30 Mawrth i estyn ei chefnogaeth. Mae swyddogion Is-adran y Gymraeg hefyd yn siarad â staff yr Eisteddfod yn rheolaidd.
- Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Eisteddfod er mwyn ceisio diogelu ei dyfodol hirdymor er gwaethaf yr heriau ariannol sydd wedi codi yn sgil y feirws gan edrych ymlaen at Eisteddfod lwyddiannus yng Nhregaron yn 2021.

### **(iii) Y Mentrau Iaith**

- Mae'r Mentrau Iaith wedi derbyn eu llythyrau cynnig grant gan y Llywodraeth sydd wedi rhoi sicrwydd ariannol i gyflogi staff. Mae 82% o gyllid grant Llywodraeth Cymru yn mynd ar gostau staffio a'r gweddill ar gostau canolog a phrosiect.
- Bydd y staff hynny sy'n cael eu hariannu drwy fentrau masnachol yn gwneud cais i ddod yn rhan o'r Cynllun Cadw Swyddi (*furlough*).
- Mae cwmni cyfreithiol yn cynnig cefnogaeth ardderchog i'r Mentrau ym maes cyfraith cyflogaeth a materion adnoddau dynol sy'n gwbl amhrisiadwy wrth ymgeisio am wahanol ffynonellau cyllid.
- Ni fydd y gwyliau bach cerddorol cymunedol yn cael eu cynnal eleni, ac felly bydd y grant tuag at hynny yn cael ei dynnu'n ôl.
- Cynhelir deialog gyson gyda'r Mentrau Iaith drwy Mentrau Iaith Cymru er mwyn trafod gwahanol sefyllfaoedd wrth iddynt ddatblygu.
- Siaradodd y Gweinidog gyda Chadeirydd Mentrau Iaith Cymru yn ystod wythnos 30 Mawrth i ddangos ei chefnogaeth iddynt, ac mae swyddogion Is-adran y Gymraeg yn cysylltu'n rheolaidd i roi diweddariadau iddynt am ffynonellau cyllid ac i dderbyn gwybodaeth am unrhyw anawsterau sy'n codi.
- O ran y tymor canolig / hir, er bod cais wedi'i wneud ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi, mae'n aneglur beth fydd y sefyllfa economaidd yn y dyfodol ac a fydd modd cynhyrchu incwm digonol o weithgareddau masnachol i dalu am y swyddi unwaith y daw'r Cynllun Cadw Swyddi i ben.
- Ar hyn o bryd, mae cynllun gofal plant Llywodraeth Cymru yn talu cyflogau rhai o staff y mentrau i gynnal darpariaeth gofal plant yn ystod cyfnod y pandemig. Ond mae'r sefyllfa yn newid o ddydd i ddydd ac mae'n bosibl na fydd darpariaeth y Mentrau yn cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru drwy gydol cyfnod y pandemig.

## (iv) Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

- Mae'r sector Dysgu Cymraeg wedi gorfod addasu a newid yn gyflym oherwydd Covid-19. Mae dysgu wyneb yn wyneb bellach wedi dod i ben yn gyfan gwbl ar draws y sector, ond mae ymateb y Ganolfan a'r darparwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn.
- Mae'r holl wersi cymunedol wyneb yn wyneb a ddechreuodd yn mis Medi neu Ionawr bellach yn cael eu cynnal ar-lein. Mae'n galonogol bod tiwtoriaid a darparwyr wedi addasu mor gyflym i'r sefyllfa. Mae hyn wedi galluogi pob dysgwr i barhau i ddysgu Cymraeg yn ogystal a dod a manteision eraill, er enghraifft cadw trefn wythnosol, a chadw mewn cysylltiad gyda phobl eraill gan felly helpu gydag iechyd meddwl.
- Mae'r Ganolfan wedi dechrau cynnal gwersi dyddiol "Cymraeg yn y cartref" ar Facebook. Mae dros 1,000 o bobl yn edrych ar y wers yn ddyddiol. Mae hyn yn helpu i ddod â'r Gymraeg i mewn i gartrefi tra bod ysgolion ar gau. Cyn hir, bydd y Ganolfan lansio gwersi wythnosol ar Facebook yn benodol ar gyfer rhieni / gofalwyr plant bach.
- Mae gan y Ganolfan dros 1,500 o adnoddau digidol sydd ar gael am ddim ar ei gwefan. Mae modd i'r adnoddau hyn helpu dysgwyr a disgyblion ysgol hŷn drwy'r cyfnod hwn.
- Yn ogystal â'r uchod, mae'r Ganolfan hefyd wedi gwneud y canlynol er mwyn ymateb i heriau Covid-19:
  - Mae grŵp arbenigol wedi ei sefydlu o dan arweiniad y Ganolfan i rannu arfer dda ac i gefnogi'r darparwyr gyda'r dulliau newydd o ddysgu.
  - Rhyddhau cynnyrch digidol diweddaraf yn gynt na'r disgwyl fel y gall y darparwyr a'r dysgwyr ddefnyddio'r adnoddau yn ystod cyfnod y pandemig.
  - Mae Cynllun Dysgu Digidol wrthi'n cael ei ddatblygu.
  - Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod lefelau presenoldeb gwersi yn uwch ers iddynt symud i ddarpariaeth ar-lein (ac ers i bawb gael eu gorfodi i aros adref!).
- Er mwyn helpu, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â'r Ganolfan yn wythnosol i drafod sut maent yn ymateb i Covid-19 a beth yw effeithiau hynny ar eu gwaith. Ond mae'r Ganolfan yn ffodus bod modd parhau gyda'i gweithgareddau drwy ddulliau amgen.
- Hefyd, mae cadw'r holl staff yn golygu bod modd i'r Ganolfan ganolbwyntio ar ddatblygu'r ddarpariaeth ar-lein a pharhau i gynnig rhaglen lawn o wersi, gan felly gadw'r risg o golli dysgwyr yn isel.

### Goblygiadau ariannol

- Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Ganolfan yn ystod yr wythnosau diwethaf ac wedi cytuno i leihau'r gyllideb am fod gwaith y Ganolfan wedi newid mor sylweddol oherwydd argyfwng Covid-19.
- Bydd hyn yn effeithio ar Cymraeg Gwaith ar gyfer 2020-21 oherwydd effaith y feirws ar rai o brif gleientiaid y Cynllun, sef y sector iechyd a gan fod gweithleoedd i bob pwrpas wedi cau ar hyn o bryd.
- Hefyd, ni fydd modd cynnig y ddarpariaeth breswyl ddwys o dan yr amgylchiadau presennol. Bydd y Cynllun yn parhau ond ar ffurf wedi'i addasu o ganlyniad i Covid-19.
- Bydd peth arbedion i'w gwneud yn sgil y ffaith nad yw'r dysgu wyneb yn wyneb yn digwydd, felly nid oes angen llogi ystafelloedd ac ati.
- Bydd peth arbedion eraill i'w gwneud gan fod rhai prosiectau wedi'u dileu neu eu gohirio o achos y feirws.
- Tra bod gwneud toriadau wrth gwrs yn anffodus, mae Covid-19 wedi cyflwyno her enfawr ac mae pob un o adrannau'r Llywodraeth wedi gorfod gwneud toriadau.
- **Yn y tymor canolig / hir**, bydd y Ganolfan Dysgu yn edrych ar sut y gall adeiladu ar y defnydd o dechnoleg sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwn.



## **(v) Mudiad Meithrin**

- Mae mwyafrif y Cylchoedd Meithrin a meithrinfeydd dydd sy'n aelodau o'r Mudiad Meithrin wedi cau o ganlyniad i'r datganiad y byddai gwyliau Pasg ysgolion yn cychwyn yn gynt na'r disgwyl, ac mai dim ond plant gweithwyr allweddol ddylai fynychu ysgolion a lleoliadau gofal plant o 23 Mawrth ymlaen. O'r rhai sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau gofal plant, mae nifer y plant sy'n mynychu'r lleoliadau hyn wedi gostwng yn sylweddol hefyd.
- Mae Mudiad Meithrin yn cefnogi ei aelodau drwy'r cyfnod heriol hwn. Mae hyn yn cynnwys rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gefnogaeth ariannol ac ymarferol sydd ar gael i Gylchoedd, cyngor ar sut i ymateb i'r heriau, a chynnig cefnogaeth ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob lleoliad, a'u staff, wedi eu diogelu.
- O ran gwytnwch y Cylchoedd Meithrin eu hunain, cyhoeddwyd ar 18 Mawrth y byddai Taliadau Cynnig Gofal Plant Cymru yn parhau hyd yn oed os na fydd plant yn bresennol yn sgil ynysu rhag Covid-19. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn disgwyl i awdurdodau lleol barhau i dalu am ofal plant sy'n cael ei ddarparu drwy Dechrau'n Deg, ac am ddarpariaeth addysg gynnar.
- Mae Mudiad Meithrin hefyd wedi cynnig arweiniad i Gylchoedd Meithrin sydd wedi gorfod cau er mwyn cael mynediad i'r Cynllun Cadw Swyddi (*furlough*).
- Mae staff Mudiad Meithrin i gyd yn gweithio o adref erbyn hyn ac yn parhau i gefnogi ei aelodau, boed y rheini wedi cau am y tro neu'n parhau i ddarparu gofal plant, drwy ddulliau amgen.

## **(vi) Cymraeg i Blant**

- Er bod sesiynau Cymraeg i Blant wyneb yn wyneb ar saib am y tro, mae'r swyddogion Cymraeg i Blant yn parhau i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg.
- Mae arlwy'r swyddogion eisoes wedi ei addasu i gynnig cefnogaeth amgen e.e. sesiynau fideo sydd wedi bod yn boblogaidd iawn. Mae trafodaethau hefyd ar y gweill i ddatblygu'r ddarpariaeth hon ymhellach dros yr wythnosau nesaf, yn ogystal â chyfraniad y swyddogion i waith ehangach i gefnogi teuluoedd yn ystod y cyfnod o bellhau cymdeithasol.

## **(vii) Clybiau Ffermwyr Ifanc**

- Mae nifer o Ffederasiynau Clybiau Ffermwyr Ifanc yn ymgeisio am y Cynllun Cadw Swyddi.
- Gan fod y digwyddiad Pentref Pobl Ifanc a gynhelir yn ystod Sioe Frenhinol Cymru wedi'i ohirio ar gyfer 2020, mae'n debygol y bydd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru yn wynebu pwysau ariannol sylweddol eleni.
- Mae'r llythyr dyfarnu grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg wedi'i anfon ar gyfer 2020-21 ac mae hyn wedi sicrhau cyllid ar gyfer costau staff.
- Mae staff Is-adran y Gymraeg mewn cysylltiad â'r Prif Weithredwr a'r staff i roi cymorth, rhannu ffynonellau cyllid ac i glywed am unrhyw bryderon.
- Mae dros 50 o Glybiau Ffermwyr Ifanc ledled Cymru wedi bod yn cynnig cefnogaeth i bobl fregus drwy gynnig cymorth ymarferol, casglu neges a chludo prydau bwyd. Mae'r gefnogaeth hon wedi bod yn werthfawr iawn mewn sawl cymuned wledig.

## **(viii) Cymdeithas Eisteddfodau Cymru**

- Mae 80% o incwm Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn cael ei ariannu gan grant gan Hybu a Hyrwyddo Defnydd y Gymraeg. Mae'r llythyr dyfarnu grant wedi'i anfon atynt sydd yn sicrhau cyflogaeth i ddau swyddog rhan-amser.
- Mae swyddogion mewn cysylltiad â gwirfoddolwyr a phwyllgorau ac yn ceisio cynghori ar y ffordd ymlaen.
- Bydd y Gymdeithas yn cyhoeddi cyngor i'r holl wirfoddolwyr sy'n gyfrifol am drefnu a rheoli digwyddiadau yn unol â gwybodaeth a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## **(ix) Merched y Wawr**

- Mae Prif Weithredwr Merched y Wawr wedi cysylltu i ofyn am gymorth ariannol ac i drafod y Cynllun Cadw Swyddi.
- Mae grant Hybu a Hyrwyddo defnydd y Gymraeg 2020-21 yn ariannu 70% o 13 aelod o staff. Ariennir y 30% sy'n weddill drwy incwm a gynhrychir drwy gynnal digwyddiadau a'u stondinau yn Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Frenhinol Cymru.
- Byddant yn wynebu prinder ariannol o'r herwydd eleni. Nid yw'r cynllun arbed swyddi yn opsiwn, felly maent yn ystyried eu hopsiynau.
- Maent yn rhedeg llinell gymorth lwyddiannus ar gyfer menywod yn ystod y pandemig o'r enw Ffoniwch Ffrind.
- Bydd swyddogion wrthi'n holi'n fewnol i weld a oes arian ar gael (Cronfa'r Celfyddydau neu Gronfa'r Trydydd Sector) ac wedi cyfeirio swyddogion Merched y Wawr at Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).
- Fe wnaeth y Gweinidog gysylltu â'r Prif Swyddog i ddangos cefnogaeth yn yr wythnos a oedd yn dechrau ar 30 Mawrth, ac mae swyddogion Is-adran y Gymraeg mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr.

## **(x) Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru**

- Mae staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn gweithio o adref, ac mae'r Gymdeithas yn parhau i gefnogi cyfieithwyr ledled Cymru.
- Bu'n rhaid canslo'r Arholiadau Aelodaeth Testun a oedd i'w cynnal ar 25 Ebrill 2020. Roedd 20 wedi cofrestru ac maen nhw wedi cael dewis rhwng sefyll yr arholiad ym mis Hydref neu gael ad-daliad.
- Mae'r Gymdeithas wedi cyhoeddi na fyddant yn holi am dâl aelodaeth am y tro, fel sy'n arferol yr adeg hon o'r flwyddyn. Oherwydd y sefyllfa bresennol, maent wedi gohirio'r ymgyrch ail-ymaelodi flynyddol am dri mis yn y lle cyntaf.
- Serch hynny, mae nifer o weithgareddau eraill y Gymdeithas yn parhau, er enghraifft maent yn bwriadu parhau i gynnal e-weithdai cyfieithu, ac oherwydd canslo'r arholiadau y gobaith yw y gellir cynnig yr e-weithdai cyfieithu hyn yn gynt na'r arfer, gan ddechrau ganol Mai.
- Yn gyffredinol, ymddengys bod y sefyllfa bresennol yn enwedig o anodd ar gyfieithwyr ar y pryd llawrydd oherwydd nad oes cyfarfodydd yn digwydd, ac mae'n ymddangos fod y gwaith cyfieithu testun yn lleihau. Mae ymgyrch wedi'i lansio i geisio dwyn perswâd ar Microsoft i addasu meddalwedd Teams fel bod modd cynnig cyfleuster cyfieithu ar y pryd.
- Ysgrifennodd y Gymdeithas at Ganghellor Llywodraeth y DU ynghylch sefyllfa'r hunangyflogedig, ac mae wedi rhoi gwybod i swyddogion y bydd y mesurau i helpu busnesau'n werthfawr iawn i'r carfannau hynny o'u haelodau. Yn yr un modd, mae'r Gymdeithas wedi croesawu'r cymorth arall y mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ei gynnig.

## **(xi) Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

- Mae holl staff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio gartref ac yn parhau i gadw mewn cysylltiad a chydweithio gyda phartneriaid.
- Mae'r Coleg wedi adolygu ei gynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn cynnal trafodaethau gyda'r prifysgolion. Y bwriad yw parhau gyda'r gwaith i gynnal y ddarpariaeth ac addasu drwy ddatblygu darpariaeth ar-lein er mwyn diogelu'r Gymraeg wrth symud ymlaen.
- Bydd y Coleg yn addasu ei gyllidebau mewn ymateb i'r gofynion, a byddwn yn cadw mewn cysylltiad agos er mwyn cadarnhau'r trefniadau hyn. Ar hyn o bryd, nid yw'n ymddangos y bydd yn gwneud cais am gefnogaeth y Cynllun Cadw Swyddi.
- Mae'n bosibl y bydd sefydlogrwydd cefnogaeth y Coleg i'r prifysgolion yn gymorth wrth iddynt wynebu ansicrwydd dros y flwyddyn nesaf.

## **(xii) Technoleg a'r Gymraeg**

- Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym ni i gyd wedi gweld y byd gwaith yn cael ei drawsffurfio gyda'r mwyafrif ohonom, yn weision ac yn bartneriaid grant, yn gweithio o'n cartrefi.
- Mae technoleg cydweithredu wedi bod o gymorth sylweddol yn hyn o beth. Fe gyflymodd y Llywodraeth ei rhaglen datblygu technoleg i'w staff ei hun fel bod meddalwedd Microsoft Teams ar gael i bawb, ac roedd y dechnoleg honno ar gael i sawl un o'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu'n barod.
- Yn 2020-21, bydd grant cyfalaf sylweddol yn cael ei roi i Gomisiynydd y Gymraeg ddiweddarau ei systemau cyfrifiadurol yn eu cyfanrwydd er mwyn hwyluso cydweithredu mewnol ac allanol.
- Hyd yn oed i'r sefydliadau hynny nad ydynt yn meddu ar feddalwedd cydweithredu megis Microsoft Teams, mae modd iddynt gymryd rhan drwy fideo ac awdio mewn cyfarfodydd sy'n cael eu trefnu gan sefydliadau eraill.



### **(xiii) Helo Blod**

- Roeddem wedi bwriadu lansio ein gwasanaeth newydd, Helo Blod, i gymreigio'r sector preifat a gwirfoddol fis Mawrth.
- Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai lansiad ffurfiol yn cael ei gynnal yn Nhreforci, ond bu'n rhaid gohirio hyn oherwydd sefyllfa Covid-19.
- Yn y pen draw, bydd Helo Blod ar gael ar-lein, wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Rydym ni wedi lansio gwasanaeth ar-lein er mwyn cefnogi'r sector gwirfoddol allu darparu gwasanaeth i'w gwsmeriaid. Mae hyn hefyd yn gyfle i brofi'r systemau, sy'n rhan o blatfform Busnes Cymru.

## **(xiv) Addysg**

- Ddydd Llun, 20 Ebrill, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, ddatganiad polisi o'r enw Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu. Mae'r datganiad yn amlinellu sut i gefnogi dysgwyr, arweinwyr, llywodraethwyr, ymarferwyr, rhieni a gofalwyr i ddelio ag effaith Covid-19.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/cadwn-diogel-dal-ati-i-ddysgu.pdf>

- Mae datganiad y Gweinidog yn nodi'n glir y bydd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn parhau fel a ganlyn:
  - diogelwch ac iechyd corfforol a meddyliol yr holl ddysgwyr a'r gweithlu addysg yng Nghymru.
  - Gallu'r dysgwyr i gyd i ddal ati i ddysgu.
  - Symud y dysgwyr yn ôl i'r ysgol ac ymlaen i gam nesaf eu dysgu pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny.
- Yn y cyfarwyddyd, mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn sicrhau bod gan ysgolion a dysgwyr cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog yr un hawl i gefnogaeth ac y rhoddir sylw penodol i ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n byw mewn cartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad, i'w helpu i ddod o hyd i ffyrdd o gynnal eu cyswllt â'r iaith.
- Mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, a nifer o gyrff eraill megis Estyn, S4C a BBC Cymru i ddatblygu gwybodaeth a chefnogaeth bellach yn ystod y cyfnod hwn.

### **3. COMISIYNYDD Y GYMRAEG**

- Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda'r Comisiynydd o ran effaith Covid-19 ar waith ei swyddfa, ond rhaid cofio bod y Comisiynydd yn annibynnol o'r Llywodraeth a rhaid i ni barhau i barchu'r annibyniaeth honno.
- Mae'r Comisiynydd wedi ysgrifennu at yr holl gyrff sy'n dod o dan drefn y Safonau yn egluro sut y mae'n bwriadu arddel ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae'r Comisiynydd wedi ysgrifennu at gyrff sy'n delio ag ymchwiliadau i fethiannau posibl i gydymffurfio â Safonau. Mae wedi nodi y bydd yn atal dros dro unrhyw ymchwiliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd, ac unrhyw ymchwiliadau lle nad yw'r gyrff dan sylw yn gallu darparu gwybodaeth ar hyn o bryd.
- Nid ydym yn rhagweld y bydd pwysau ychwanegol ar gyllideb y Comisiynydd yn ystod y cyfnod hwn.

## **4. CEFNOGAETH SYDD AR GAEL I BARTNERIAID GRANT**

Mae cryn dipyn o gefnogaeth ariannol ar gael i'n partneriaid grant a hynny o amrywiol ffynonellau. Rydym yn gweithio gyda nhw i weld pa gronfeydd ariannol a all fod o gymorth iddyn nhw. Isod, mae manylion rhai enghreifftiau.

### **Llywodraeth**

#### **Y Trydydd Sector**

Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector

Ar 6 Ebrill, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip **Gronfa Ymateb Covid-19 y Trydydd Sector** Llywodraeth Cymru sy'n werth £24 miliwn. Bydd y gronfa hon yn cefnogi'r gweithgarwch canlynol:

- Helpu elusennau a sefydliadau yn y trydydd sector yn ariannol
- Helpu mwy o bobl i wirfoddoli a gwasanaethau gwirfoddoli
- Cryfhau seilwaith hanfodol y Trydydd Sector

<https://wcva.cymru/cy/cyllid/buddsoddiad-cymdeithasol-cymru/cronfa-gwydnwch-trydydd-sector-cymru/>

Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol

Sefydlwyd Cynllun Grant newydd i alluogi mudiadau gwirfoddol i ddarparu cymorth hanfodol yn ystod argyfwng Covid-19 er mwyn parhau ac ehangu eu gwaith. Gall mudiadau wneud cais am gymorth hyd at £100,000.

<https://wcva.cymru/cy/cyllid/cynllun-grant-gwirfoddoli-cymru/>

#### **Y Diwydiannau Creadigol a Chwaraeon**

Ar y 1 Ebrill, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, becyn arbennig o fesurau wedi'u cynllunio i ddarparu cymorth ar unwaith i'r sectorau creadigol a chwaraeon a fydd yn helpu i achub busnesau a swyddi. Mae dros £18 miliwn ar gael i **gefnnogi sectorau y diwydiannau creadigol, diwylliant a chwaraeon** sy'n teimlo effaith Covid-19 ar hyn o bryd.

<https://llyw.cymru/pecyn-18-miliwn-o-gymorth-ar-gyfer-y-sector-diwylliant-creadigol-chwaraeon-yng-nghymru>

Gweinyddir y cynlluniau hyn gan Gyngor y Celfyddydau, Cyngor Chwaraeon a Llywodraeth Cymru.

Rhagor o fanylion drwy'r dolenni isod:

[Cronfa Gwytnwch Celfyddydau](#)

[Diwydiannau Creadigol](#)

## **Chwaraeon**

### **Cronfa Cadernid Economaidd £500m**

Hefyd ar 6 Ebrill, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo pecyn gwerth £1.7 biliwn o gymorth i fusnesau i helpu iddynt fynd drwy'r pandemig. Mae hyn yn cynnwys grantiau ar gyfer busnesau bach a blwyddyn o wyliau ardrethi.

- £100m ar gael fel benthyciadau gan Fanc Datblygu Cymru (benthyciadau rhwng £5k a £250k – llog isel).
- £400m wedi ei glustnodi ar gyfer 3 cynllun penodol:
  - Grantiau o hyd at £10k i fusnesau micro (9 a llai o staff).
  - Grantiau o hyd at £100k i fusnesau bach a chanolig (10-249 o staff).
  - Pecyn cymorth i fusnesau mawr a mentrau cymdeithasol sy'n cyflogi dros (250 o staff).

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/cymorth/cymorth-ariannol-grantiau>

### **Rhyddhad Ardrethi Busnes**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn cymorth ar gyfer busnesau bach i'w helpu drwy'r pandemig. Mae'r pecyn newydd yn cynnwys blwyddyn o wyliau ardrethi busnes i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru.

<https://businesswales.gov.wales/cy/rhyddhad-ardrethi-busnes>

### **Y Cynllun Cadw Swyddi**

Nod y Cynllun Cadw Swyddi yw cefnogi cyflogwyr y mae'r feirws wedi effeithio'n ddifrifol ar eu gweithrediadau, a lleihau nifer y staff sy'n cael eu gwneud yn ddi-waith. O dan y cynllun, gall cyflogwyr roi staff ar gyfnod o absenoldeb dros dro (*furlough*) a hawlio grant gan Gyllid a Thollau EM sy'n talu 80% o'u costau cyflog misol arferol, hyd at £2,500 y mis. Gallant hefyd hawlio cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a chyfraniadau pensiwn (hyd at lefel lleiafswm cyfraniad y cyflogwr at y pensiwn dan y drefn cofrestru awtomatig) ar y cyflog cymorthdaledig. Gall hawliadau'r Cynllun Cadw Swyddi gael eu hôl-ddyddio tan 1 Mawrth – os yw'r gweithwyr wedi cael eu rhoi ar *furlough* yn barod cyn i'r hawliad gael ei wneud.

Mae'r canllawiau sydd i'w gweld drwy'r ddolen isod (Saesneg yn unig) yn esbonio sut mae'r cynllun yn gweithio:

<https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wage-costs-through-the-coronavirus-job-retention-scheme>

### **Awdurdodau Lleol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn cymorth ar gyfer rhai busnesau a restrir ar y gofrestr ardrethi busnes. Cynigir grant o £25,000 i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000. Mae pecyn Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu grant o £10,000 i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai ac sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach. Gweinyddir y Cynllun Grant hwn gan Awdurdodau Lleol.